Cyfarfod Bwrdd AIA IGDC – Cofnodion Cyhoeddus Heb eu Cadarnhau

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) a gynhaliwyd ddydd Iau 30 Gorffennaf 2026 fel cyfarfod rhithiol a ddarlledwyd yn fyw drwy Zoom.

10:00 – 15:00 | 30 Gorffennaf 2026 | ZOOM

Aelodau'n Bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
David Selway	DS	Is-gadeirydd Dros Dro	IGDC
Paul Evans	PE	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd – Undeb Llafur	IGDC
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	IGDC
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	IGDC
Marian Wyn Jones	MWJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Chris Moreton	CM	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro	IGDC
Samantha Morgan	SM	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
Helen Thomas	HT	Prif Swyddog Gweithredol	IGDC

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Alex Percival (eitem 3.1 yn unig)	AP	Pennaeth Rhaglenni Gofal a Gynlluniwyd	IGDC
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Ruth Glazzard	Cadeirydd	IGDC
Ifan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Alistair Klaas Neill	Aelod Annibynnol	IGDC
Marilyn Bryan Jones	Aelod Annibynnol	IGDC

Acronymau			
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig
PSG	Prif Swyddog Gweithredol	Abl	Achos Busnes Llawn
AA	Aelod Annibynnol	CTCI	Cynllun Tymor Canolig Integredig
LLC	Llywodraeth Cymru	DG&S	Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
A&A	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	PDC	Y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	POD	Pobl a Datblygu Sefydliadol
INPS	In Practice Systems	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
NTA	Y Saernïaeth Darged Genedlaethol	MT	Meddyg Teulu
RISP	Rhaglen y System Gwybodeg Radioleg	LIMS	System Rheoli Gwybodaeth Labordy
DM	Digwyddiad Mawr	Ch1, Ch2…	Chwarter 1, Chwarter 2…
AED	Adeiladu Ein Dyfodol	BIPCAF	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
CLGau	Cytundebau Lefel Gwasanaeth	EHR	Cofnod Iechyd Electronig
DDaT	Digidol, Data a Thechnoleg	AChA	Amcanion a Chanlyniadau Allweddol
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol	EPS	Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol	AI	Deallusrwydd Artiffisial
GDaD	Digidol a Data'r Llywodraeth	RATS	Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
LPF	Fforwm Partneriaeth Lleol	WPOCT	Profion Pwynt Gofal Cymru
MoU	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth	WIS	System Imiwneiddio Cymru
RADIS	System Gwybodaeth Radioleg Cymru		

Rhif yr Eitem	Manylion yr Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	**Croeso ac Ymddiheuriadau** Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb yn ddwyieithog i gyfarfod Bwrdd AIA IGDC a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw dros Zoom. Yn ogystal, byddai'r recordiad ar gael drwy wefan IGDC ar gyfer unrhyw unigolion na fyddent yn gallu cael mynediad i'r cyfarfod byw. Darparodd y Cadeirydd hysbysiadau cadw tŷ ynghylch agweddau technegol ffrydio byw'r cyfarfod, y seibiannau arfaethedig, a'r defnydd o'r agenda cydsynio ar gyfer eitemau 2.1 i 2.8.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** • Ruth Glazzard (mynychodd ran olaf y cyfarfod) • Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth • Alistair Klaas Neil, Aelod Annibynnol • Marilyn Bryan Jones, Aelod Annibynnol	Ddim yn berthnasol	Dim i'w nodi
1.3	**Datganiadau o Fuddiant** Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Ddim yn berthnasol	Dim i'w nodi
RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO			
2.1	2.1.1 Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd 28 Mai heb eu cadarnhau 2.1.2 Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Bwrdd Eithriadol a gynhaliwyd ar 25 Mehefin i. Materion sy'n Codi Gellir gwylio cyfarfod y Bwrdd drwy ddilyn y ddolen yn y teitl. **Penderfynodd y Bwrdd:** **CYMERADWYO'R** ddwy set o gofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd ar 28 Mai, a'r Bwrdd Eithriadol ar 25 Mehefin.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	**Cofnod Gweithredu (3)** Roedd tri cham gweithredu yn y cofnod, dau ohonynt ar y gweill, ac un wedi'i gwblhau. **Penderfynodd y Bwrdd:** **NODI'R** Cofnod Gweithredu.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.3	**Blaengynllun Gwaith**	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Penderfynodd y Bwrdd: **NODI'R** Blaengynllun Gwaith.		
2.4	**Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth** **Penderfynodd y Bwrdd:** **NODI'R** Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.5	**Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau** **Penderfynodd y Bwrdd:** **CYMERADWYO'R** Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.6	**Datganiad Systemau Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau 2025-26** **Penderfynodd y Bwrdd:** **NODI'R** Ffurflen Systemau Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau 2025-26	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.7	**Adroddiad Ansawdd Blynyddol** **Penderfynodd y Bwrdd:** **GYMERADWYO'R** Adroddiad Ansawdd Blynyddol.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.8	**Diweddariad i'r Cynllun Gweithredu Risg Addasu** **Penderfynodd y Bwrdd:** **GYMERADWYO'r** Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu ar Risg Addasu	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
PRIF AGENDA			
I'W DRAFOD			
3.1	**Cyflwyniad Gwrando a Dysgu a Rennir** • **Dysgu Gofal a Gynlluniwyd** Cyflwynodd Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (RH) ac Alex Percival, Pennaeth Rhaglenni Gofal a Gynlluniwyd, drosolwg o'r Dysgu Gofal a Gynlluniwyd:- Nodwyd uchafbwyntiau allweddol: • Roedd gofal wedi'i gynllunio yn parhau dan bwysau sylweddol, gyda dros 500,000 o bobl yn aros am driniaeth a mwy na 650,000 o lwybrau gofal agored, gan gynnwys cleifion yn aros dros ddwy flynedd. • Cefnogodd y rhaglen flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i leihau arosiadau hir, gwella amseroldeb diagnostig, cryfhau'r defnydd o theatrau, cefnogi canolfannau llawfeddygol rhanbarthol a gwella profiad cleifion. • Roedd IGDC yn gweithio gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Wedi'i Gynllunio i ddatblygu offer digidol sy'n gwella	Derbyniwyd a Thrafodwyd	

	rheoli llwybrau, yn cefnogi gwneud penderfyniadau clinigol ac yn cynyddu effeithlonrwydd ar draws GIG Cymru. • Ymhlith y datblygiadau allweddol roedd atgyfeiriadau a fetio electronig, ymarferoldeb syth-i-brofi, canlyniadau clinigau cleifion allanol, ffurflenni canlyniadau electronig, cardiau rhestr aros, asesiad amlawdriniaethol a nodiadau llawdriniaeth electronig. • Roedd gwaith darganfod canolfannau llawfeddygol rhanbarthol ar y gweill, gan ganolbwyntio i ddechrau ar dde-ddwyrain Cymru ac Ysbyty Nevill Hall, er mwyn nodi gofynion, enillion cyflym a newidiadau meddalwedd yn y dyfodol gan osgoi datrysiad pwrpasol ar gyfer un rhanbarth. • Cyflwynwyd y datblygiadau fel rhaglen gydlynol i leihau oediadau, gwella cynhyrchiant, cryfhau gweledegd data a chefnogi llwybrau gofal wedi'u cynllunio'n fwy diogel a chyson. Croesawodd yr aelodau'r cyflwyniad a nodwyd y potensial i'r rhaglen symleiddio llwybrau gofal wedi'u cynllunio. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar lefel mabwysiadu byrddau iechyd, gydag eglurhad yn cael ei ddarparu bod penderfyniadau gweithredu yn parhau i fod yn lleol ac yn ddibynnol ar systemau presennol, arweinwyr clinigol a thimau digidol lleol. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd dangos tystiolaeth o fanteision i gefnogi defnydd ehangach. Nodwyd bod atgyfeiriadau a gwirio electronig eisoes wedi dangos gwelliannau mesuradwy, tra bod gwaith pellach wedi'i gynllunio i fesur cynhyrchiant ehangach, arbed amser a manteision data trwy weithgarwch darganfod, safonau data gwell ac adrodd ar gynhyrchion. Ystyriodd yr aelodau hefyd waith y ganolfan lawfeddygol ranbarthol, gan nodi'r angen i ddeall gofynion gweithredol ar draws sefydliadau ac osgoi creu ateb na ellid ei raddio. Disgwylid i waith darganfod, gan gynnwys gweithdai ac ymweliadau â safleoedd, nodi bylchau, enillion cyflym a gofynion tymor hwy erbyn mis Medi. Diolchodd y Cadeirydd i Rhidian Hurle ac Alex Percival am y cyflwyniad a gofynnodd am ddiweddariad yn y dyfodol ar gynnydd. **CAM GWEITHREDU: 20260720-A01** Diweddariad i'w dderbyn mewn cyfarfod yn y dyfodol ar y cynnydd a wnaed yn y Dysgu Gofal a Gynlluniwyd **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** a THRAFOD y Dysgu Gofal a Gynlluniwyd		CAM GWEITHREDU: 20260720-A01
RHAN 4 - I'W ADOLYGU			
4.1	**Adroddiad y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-gadeirydd Dros Dro** Cyflwynodd yr Is-gadeirydd Adroddiad y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gan gynnwys defnyddio'r Sêl Gyffredin, a thynnodd	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	sylw at faterion allweddol o'r adroddiad yn absenoldeb y Cadeirydd. Nododd y Bwrdd fod gweithgarwch recriwtio yn mynd rhagddo ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd a swydd wag yr Aelod Annibynnol. Roedd y ddwy swydd wedi cael eu hysbysebu, roedd llunio rhestr fer ar y gweill, a disgwylid cynnal cyfweliadau yn fuan, gyda'r bwriad y byddai penodiadau'n cael eu gwneud yn ystod trydydd chwarter 2026/27. Byddai hyn yn adfer y cyflenwad gweithredol nad yw'n swyddogion i'w aelodaeth lawn. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw hefyd at gyfarfod Eithriadol y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Mehefin lle cymeradwywyd y Cyfrifon Blynyddol. Nodwyd hefyd Diwrnod Datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ar yr un diwrnod, gyda'r drafodaeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar statws uwchgyfeirio'r sefydliad a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mewn perthynas ag adroddiad yr Is-gadeirydd ei hun, dywedwyd wrth y Bwrdd fod cyfarfodydd goddefiant risg rhaglenni wedi'u cynnal gyda'r holl raglenni mawr yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni Portffolio. Gofynnwyd am y cyfarfodydd hyn drwy'r llythyr cylch gwaith ac roeddent wedi'u cwblhau i raddau helaeth, gyda dim ond cyfarfod LIMS ar ôl, a ddisgwylid iddo ddigwydd yr wythnos ganlynol. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** cynnwys adroddiad y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-gadeirydd Dros Dro.		
4.2	**Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol** Cyflwynodd Helen Thomas (HT), Prif Swyddog Gweithredol, adroddiad y Prif Weithredwr, gan ddarparu'r uchafbwyntiau canlynol: • Mae'r sefydliad yn parhau i fod ar lefel uwchgyfeirio 4 o dan ymyrraeth dargedig, gyda gwaith parhaus gyda Pherfformiad a Gwella'r GIG a Llywodraeth Cymru i symud blaenoriaethau gwella yn eu blaen. • Mae ymgysylltiad wedi cynyddu ar draws y sefydliad, gan gynnwys gydag uwch arweinwyr a staff, er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o statws yr uwchgyfeirio, blaenoriaethau gwella a chyfrifoldebau ehangach y sefydliad. • Cymeradwyodd yr Uwchgynhadledd Gofal Sylfaenol, dan arweiniad Llywodraeth Cymru ac a fynychwyd gan uwch arweinwyr Iedled Cymru, y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn fel cyfrwng allweddol ar gyfer trawsnewid. • Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi blaenoriaethau cynnar ar gyfer y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn, gan gynnwys recriwtio i rôl gyfarwyddwr Perfformiad a Gwella'r GIG bwrpasol a datblygu fframwaith llywodraethu gwybodaeth ar gyfer rhannu data a mynediad at ddata. • Mae gwaith Glasbrint Digidol GIG Cymru wedi cynnwys tua 300 o bobl Iedled Cymru drwy ymgysylltu a chyd-ddylunio, gyda'r allbynnau drafft bellach yn cael eu mireinio a	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	disgwylir iddynt gael eu trafod ym Mwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru. • Disgwylir i'r Glasbrint Digidol gefnogi cyflawniad y strategaeth 10 mlynedd newydd a gomisiynwyd gan y llywodraeth newydd, gan ddarparu "Seren y Gogledd" gliriach ar gyfer cyflawniad digidol ar draws y system. • Roedd presenoldeb da yng Ngwobrau Cydnabyddiaeth Staff a chawsant nifer sylweddol o enwebiadau, gan roi cyfle i gydnabod cyflawniadau staff ar draws y sefydliad. • Cynhaliodd IGDC gyfarfod cyflwyniadol i gadeiryddion a phrif weithredwyr gyda'r Gweinidog Cabinet newydd, Dirprwy Weinidogion a Phrif Weithredwr GIG Cymru, gan roi cyfle i arweinwyr y system glywed blaenoriaethau gweinidogol yn uniongyrchol a thrafod pwysau ar y gweithlu a blaenoriaethau gwella. Mewn ymateb i gwestiynau am flaenoriaethau ar draws y system a dealltwriaeth sefydliadol o'r sefyllfa uwchgyfeirio, cynghorodd HT fod aliniad cryf ledled Cymru ar y blaenoriaethau craidd, yn enwedig rôl ganolog digidol a data wrth gynnal, gwella a thrawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal. Tynnwyd sylw at ddigidol a data fel blaenoriaethau amlwg i Weinidogion, cadeiryddion a phrif weithredwyr, gyda rhannu data a mynediad at ddata wedi'u nodi fel galluogwr allweddol drwy'r Uwchgynhadledd Gofal Sylfaenol a'r rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn. O ran ymgysylltu â staff ac uwch arweinwyr, eglurodd y Prif Weithredwr fod cyfathrebu anffurfiol ychwanegol wedi'i gyflwyno i ddarparu lle diogel ar gyfer cwestiynau ac i rannu cyd-destun ynghylch ymyrraeth dargedig. Cydnabuwyd bod codi o lefel 3 wedi achosi siom ac wedi teimlo'n bersonol i lawer o staff, o ystyried cenhadaeth glir y sefydliad a'i ddiwylliant gweithio agos. Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd fod staff yn cydnabod meysydd yr oedd angen eu gwella a bod y sefydliad yn ymateb yn gadarnhaol, gyda'r broses uwchgyfeirio yn helpu i greu mwy o eglurder ynghylch cyfleoedd, rolau a chyfrifoldebau gwella. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** cynnwys adroddiad y Prif Weithredwr.		
RHAN 5 – EITEMAU STRATEGOL			
5.1	**Diweddariad Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl** Cyflwynodd Sam Hall, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (SH) y diweddariad Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, gan dynnu sylw at weithgarwch allweddol ar draws Cymunedol o'r Cychwyn, gofal llygaid, Ap GIG Cymru, system ddylunio IGDC a brechlynnau. Nododd y Pwyllgor fod Cymunedol o'r Cychwyn yn rhaglen drawsnewid sylweddol i GIG Cymru, gyda IGDC yn cyfrannu drwy gynrychiolaeth uwch lywodraethol a mewnbwn cyflawni amlddisgyblaethol. Er nad oedd y rhaglen yn cael ei hariannu'n ganolog, roedd IGDC yn mapio gwaith a chynlluniau ffordd a ariennir eisoes i gefnogi'r ddarpariaeth, gan gynnwys gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chysylltu gofal, cofnodion iechyd	Er Sicrwydd	Dim i'w nodi

	electronig a'r cofnod gofal integredig posibl yn y dyfodol. • Nododd y Pwyllgor gynnydd ar ofal llygaid, gyda system atgyfeirio (OPERAi) yn fyw ar draws pob bwrdd iechyd ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, lle roedd y system wedi'i threfnu ar gyfer 5 Awst, a thua 9,000 o atgyfeiriadau eisoes wedi'u prosesu. • Roedd gwaith hefyd ar y gweill i symleiddio atgyfeiriadau i feddygfeydd teulu drwy Docman Connect. Mewn ymateb i gwestiwn ar gyllid a mynediad at Docman, cytunodd SH i gadarnhau'r sefyllfa gyllido a chynghorodd mai dim ond tua 19 o bractisau a ddeallwyd nad oedd ganddynt fynediad ar hyn o bryd. • Tynnodd y diweddariad sylw at y defnydd cryf o Ap GIG Cymru, gyda 811,000 o gofrestriadau, dros 325,000 o ddefnyddwyr gweithredol a defnydd sylweddol o swyddogaethau presgripsiwn rheolaidd, apwyntiadau a hysbysu. Trafododd yr Aelodau y canlynol: • Statws yr atgyfeiriadau, gwybodaeth am y rhestr aros a chanlyniadau'r profion, a chadarnhaodd SH fod y rhain yn ddatblygiadau blaenoriaeth uchel, yn amodol ar ddibyniaethau gyda byrddau iechyd a chyfyngiadau capasiti. • Nododd yr aelodau hefyd gynnydd ar system ddylunio IGDC a'r gwasanaeth brechlynnau, a oedd wedi cwblhau asesiad gwasanaeth digidol Llywodraeth Cymru ac wedi cefnogi'r gwaith o ddarparu 14 miliwn o frechiadau, gan gynnwys galluogi cyflym y rhaglen Meningococol B (MenB). • Risgiau a chyfleoedd yn deillio o'r adroddiad ac a oedd diffyg cyllid pwrpasol ar gyfer Cymunedol o'r Cychwyn wedi creu risg o or-ymrwymo. Cydnabu SH yr her ond cynghorodd y byddai grŵp llywio IGDC yn cefnogi blaenoriaethu a chydweddu adnoddau presennol. • Sut y gallai asesiadau gwasanaethau digidol gryfhau penderfyniadau buddsoddi a sicrwydd gwerth am arian. Amlinellodd SH y potensial i ddefnyddio asesiadau fesul cam drwy gyfnodau darganfod, alffa a beta, gan gynnwys mewnbwn ariannol. Cynigiodd Chris Moreton weithio gyda hi i ddatblygu'r dull ymhellach. **Penderfynodd y Bwrdd:** **NODI,** er SICRWYDD yr Adroddiad Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl		
5.2	**Adroddiad Gweithrediadau Strategol** Cyflwynodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), drosolwg o ehangder y gweithgaredd o fewn Gweithrediadau, gan nodi ei rôl wrth ddarparu gwasanaethau cenedlaethol hanfodol ar draws GIG Cymru, gan gynnwys cynhyrchion cofnod sengl, systemau clinigol arbenigol,	Nodwyd	Dim i'w nodi

	meddyginiaethau a gwasanaethau diagnostig, seiberddiogelwch, cwmwl a seilwaith, rheoli gwasanaethau menter a chyflenwi digidol. Tynnodd yr adroddiad sylw at feysydd ffocws allweddol a oedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol IGDC, gan gynnwys y rhaglen mudo i'r cwmwl, cryfhau'r gwydnwch a pharodrwydd seiber cenedlaethol, cynyddu gwerth Cytundeb Menter Microsoft 365 a Copilot Chat, a symud datblygiadau gofal brys ac argyfwng ymlaen trwy Set Data Gofal Brys Cymru a chymhwysiad newydd sy'n frodorol i'r cwmwl. Darparwyd diweddariadau pellach ar fabwysiadu ffyrdd gweithio modern, ystwyth, datblygu cynllun peilot peirianneg wedi'i drwytho â deallusrwydd artiffisial, galluoedd cofnod sengl yn y dyfodol, gweithio rhanbarthol, adrodd gwell ar ddarpariaeth a gwerth, a chyfraniad parhaus Gweithrediadau at amcanion arbedion ac effeithlonrwydd IGDC. Croesawodd yr aelodau'r diweddariad a nodwyd ei fod yn rhoi gweledegd defnyddiol o ehangder y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn Gweithrediadau, gan gynnwys gweithgaredd nad yw bob amser yn weladwy drwy raglenni mawr neu ddiweddariadau cynnyrch. Cydnabuwyd bod y diweddariad Gweithrediadau a diweddariadau cysylltiedig cynharach yn dangos newid sylweddol yn ffyrdd gweithio IGDC, gan gynnwys y ffordd y mae'r sefydliad yn ymgysylltu â GIG Cymru a rhanddeiliaid ehangach. Nododd yr aelodau fod y buddsoddiad mewn strwythurau cyfarwyddiaethau a ffyrdd o weithio yn dechrau cael effaith amlwg a byddai'n parhau i ddatblygu dros amser. Cydnabu'r Bwrdd yr ymdrech sylweddol a oedd ynghlwm wrth weithredu Cytundeb Menter Microsoft 365 newydd a diolchodd i'r rhai a oedd yn gysylltiedig. Nododd yr aelodau hefyd fanteision ehangach Copilot Chat y tu hwnt i gynhyrchiant ac effeithlonrwydd, gan gynnwys ei gyfraniad posibl at yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn benodol, cyfeiriwyd at sut y gallai Copilot gefnogi cydweithwyr niwroamrywiol yn y gweithle a phwysigrwydd cydnabod effaith ehangach y dechnoleg ar werth cymdeithasol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch cynnydd o ran sefydlu corff ar draws y GIG yng Nghymru i gydlynu gweithgaredd seiberddiogelwch, cadarnhaodd SL fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Dywedodd, yn dilyn cyfarwyddyd clir a dderbyniwyd yn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus, fod yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth presennol a Fforwm Gwarcheidwaid Caldicott yn cael eu hesblygu'n grŵp llywodraethu i oruchwylio materion gweithrediadau seiber strategol ar draws GIG Cymru. **Penderfynodd y Bwrdd:** **NODI'R** Adroddiad Gweithrediadau Strategol		
5.3	**Adroddiad Grŵp Sicrwydd Strategaeth**	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Rhoddodd Michelle Sell, Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu (MS), ddiweddariad gan y Grŵp Sicrwydd Strategaeth, sy'n goruchwylio cyflawni strategaeth sefydliadol IGDC. Roedd y grŵp wedi datblygu gwaith i symleiddio datblygu a rheoli strategaethau, gyda chefnogaeth llawlyfr strategaeth newydd. Nododd y Bwrdd gymeradwyaeth y Strategaethau Cymraeg, Parhad Busnes ac Amgylcheddol wedi'u hadnewyddu, ac y byddai meysydd ffocws yn y dyfodol yn cynnwys gwerth masnachol a chymdeithasol, y Strategaeth Cwmwl, a'r Strategaethau Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Croesawyd Strategaeth y Gymraeg a'r dull rhagweithiol o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad gan y Bwrdd. **Penderfynodd y Bwrdd:** **NODI** Adroddiad y Grŵp Sicrwydd Strategaeth		
RHAN 6 – LLYWODRAETHU, RISG, PERFFORMIAD A SICRWYDD			
6.1	**Statws Uwchgyfeirio IGDC** Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) y diweddariad yn dilyn symudiad IGDC i Ymyrraeth Dargedig Lefel 4 ym mis Ebrill 2026. Cynghorodd fod IGDC yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Uned Perfformiad a Gwella'r GIG i ddiffinio'r ymateb sefydliadol a monitro cynnydd yn erbyn y fframwaith uwchgyfeirio y cytunwyd arno. Nododd y Bwrdd y dull dau gam sy'n cael ei fabwysiadu gan Uned Perfformiad a Gwella'r GIG. Roedd Cam 1 yn cynnwys adolygiad gwerthusol a gefnogwyd gan dystiolaeth a ddarparwyd gan IGDC, gyda disgwyl i Gam 2 symud i'w gyflwyno gyda chymorth cynghorydd annibynnol. Tynnodd Chris sylw hefyd at y pwyslais ar IGDC yn dangos arweinyddiaeth system gliriach, wedi'i gefnogi gan waith i egluro rolau, cyfrifoldebau a ffyrdd o weithio drwy'r glasbrint digidol. Trafododd yr aelodau'r canlynol:- • Beth oedd yr amseriad a drefnwyd ar gyfer comisiynu'r cynghorydd annibynnol. Dywedodd CD fod y broses ychydig ar ei hôl hi o'r disgwyl gwreiddiol oherwydd yr asesiad Cam 1 mwy llawn, gyda disgwyl i'r cyfarfod ddechrau mis Medi egluro'r sefyllfa sylfaenol a bod angen mewnbwn annibynnol. • Nodwyd bod Llywodraeth Cymru ac Uned Perfformiad a Gwella'r GIG yn mabwysiadu dull ystyriol, gan gydnabod rôl benodol IGDC. • Cadarnhawyd y byddai dechrau mis Medi yn nodi'r newid o werthuso i gyflawni. • Cynghorwyd yr aelodau y disgwylir i'r gwaith glasbrint digidol ddarparu ffordd glir ymlaen erbyn diwedd y chwarter.	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

	Penderfynodd y Bwrdd: **NODI** Diweddariad Uwchgyfeirio IGDC er **SICRWYDD**		
6.2	**Adroddiad Pobl a Diwylliant** Cyflwynodd Samantha Morgan, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (SM), yr adroddiad Pobl a Diwylliant yn amlinellu cynnydd wrth symud y Strategaeth Pobl i weithredu drwy gynllunio gweithlu a gallu strategol, model sgiliau ar gyfer y dyfodol a mwy o recriwtio, datblygu, rheoli talent a buddsoddi yn y gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nododd y Bwrdd fod 67% o'r gweithlu yn gweithio yn y proffesiwn digidol, gyda 93% o'r rolau hynny wedi'u halinio â fframwaith Proffesiwn Digidol a Data'r Llywodraeth. Tynnodd yr adroddiad sylw at symudiad o gynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar swyddi gwag i gynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar allu, gan alluogi IGDC i nodi rolau hanfodol, sgiliau prin, risgiau ymddeol, heriau olyniaeth a meysydd ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu. Cefnogodd meincnodi Gartner yr angen i gryfhau buddsoddiad mewn hyfforddiant, gyda blaenoriaethau gallu yn y dyfodol yn cynnwys deallusrwydd artiffisial, seiberddiogelwch, cwmwl, rheoli cynnyrch, dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gallu'r Gymraeg ac amrywiaeth y gweithlu. Dywedwyd wrth y Bwrdd y byddai'r fframwaith yn cefnogi symudedd mewnol, ailsgilio, adleoli a dull datblygu eich hun trwy dalent sy'n dod i'r amlwg, prentisiaethau, llwybrau graddedigion a phrofiad gwaith, ochr yn ochr â ffyrdd hyblyg o weithio i wella blaenoriaethu a chyflenwi. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymryd sicrwydd o'r symudiad o ddylunio fframwaith i gyflawni cymhwysol. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y canlynol:- • Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut mae IGDC yn diffinio gweithwyr proffesiynol digidol ac yn cefnogi staff y tu allan i fframwaith Proffesiwn Digidol a Data'r Llywodraeth. Cadarnhaodd SM fod y fframwaith yn diffinio rolau digidol ond cydnabu'r angen i gynnwys proffesiynau eraill a rolau sy'n dod i'r amlwg trwy gynllunio sgiliau hanfodol, cynllunio olyniaeth, buddsoddiad wedi'i dargedu, rolau GDAD Plus ac ymgysylltu â grwpiau proffesiynol. • Croesawodd HT yr adroddiad a phwysleisiodd yr angen am fframwaith gweithlu a gyrfaoedd ar draws y sefydliad i gefnogi'r holl staff, gyda'r system rheoli dysgu yn helpu unigolion i reoli datblygiad a dangos tystiolaeth o gynnydd. Yn ogystal, nodwyd bod yr adroddiad yn dangos bod y Strategaeth Pobl wedi'i chyflawni'n glir ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd datblygiad proffesiynol, dilysu a chofrestru, yn enwedig ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â digidol, data a deallusrwydd artiffisial. • Ceisiwyd sicrwydd ynghylch cynllunio olyniaeth ar gyfer staff allweddol a phwyntiau methiant unigol, yn enwedig yng ngoleuni adborth uwchgyfeirio a'r rhewi recriwtio. Cadarnhaodd SM fod sgiliau hanfodol a phwyntiau methiant	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	unigol wedi'u hadolygu, bod cynllunio olyniaeth wedi'i dargedu yn mynd rhagddo, a byddai ffyrdd ystwyth o weithio yn helpu i rannu gwybodaeth ar draws timau a lleihau dibyniaeth ar unigolion. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** a **THRAFOD** yr Adroddiad Pobl a Diwylliant		
6.3	**Diweddariad Llythyr Cylch Gwaith 2026-27** Cyflwynodd Michelle Sell, Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu (MS), ddiweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo blaenoriaethau'r sefydliad ym mis Mawrth; fodd bynnag, ni ellid cymeradwyo'r cynllun ar y pryd oherwydd bwlch ariannu heb ei ddatrys, yn bennaf yn ymwneud â Chronfa Buddsoddi Blaenoriaeth Digidol (DPIF). Yn dilyn derbyn dyraniad cyllid cliriach, roedd yr CTCI wedi'i fireinio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol. Cynghorodd Llywodraeth Cymru nad oedd y CTCI a gyflwynwyd yn gallu cael ei gynnal ar hyn o bryd a gofynnodd am sicrwydd pellach ynghylch cyflawniad, capasiti, blaenoriaethu, llywodraethu, dibyniaethau, rheoli risg a manteision. Mewn ymateb, cynhaliodd y sefydliad ymarfer blaenoriaethu pellach yn erbyn gofynion llythyr cylch gwaith, rhwymedigaethau statudol a pholisi, parhad gwasanaeth, diogelwch cleifion, seiberddiogelwch a dibyniaethau ar gyflenwi. Tynnwyd nifer o gerrig milltir lle nad ystyriwyd eu bod yn gyflawnadwy o fewn y cyfyngiadau cyllid a chapasiti presennol. Roedd gwaith pellach hefyd wedi'i wneud ar lywodraethu, goddefiant risg portffolio, rheoli dibyniaeth a gwireddu buddion. Roedd llythyr ymateb wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin, ac roedd disgwyl ymateb pellach. Roedd heriau cyflawni parhaus yn parhau, gan gynnwys gostyngiadau ac oedi yng nghyllid DPIF ac effaith yr oedi recriwtio. Canolbwyntiodd trafodaeth yr aelodau ar y canlynol: • Cydnabu HT y gwaith sylweddol a wnaed a nododd yr angen am fwy o gyd-gynhyrchu â Llywodraeth Cymru fel y gellid datblygu'r llythyr cylch gwaith a'r CTCI ochr yn ochr. Tynnodd sylw at y ffaith bod cadarnhad hwyr o ofynion a chyllid wedi creu addasiadau a phwysau cyflawni y gellid eu hosgoi yn ystod y flwyddyn. • Gofynnodd DS a oedd unrhyw fylchau'n parhau rhwng gofynion y llythyr cylch gwaith a'r cyllid sydd ar gael. Dywedodd MS fod rhai meysydd yn dal i gael sylw ac nad oedd aliniad llawn wedi'i gyflawni eto. Parhaodd y CTCI yn gynllun byw, gyda cherrig milltir yn cael eu rheoli drwy drefniadau rheoli newid sefydledig. • Nodwyd bod y Cofnod Gofal Integredig yn faes allweddol sydd angen ystyriaeth bellach, gyda thrafodaethau'n parhau ynghylch amseru, dull, aliniad â phartneriaid a chyllid.	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	• Nododd yr aelodau hefyd mai dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r llythyr cylch gwaith gyrraedd ar ôl cyflwyno'r CTCI gerbron y Bwrdd i'w gymeradwyo, a mynegwyd yr angen am gyd-gynhyrchu a chwblhau unrhyw adolygiad DPIF yn gynharach cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** A **THRAFOD** Diweddariad y Llythyr Cylch Gwaith 2026-27		
6.4	**Adroddiad Cyllid** **Diweddariad Cyllid DPIF** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (CM) Chris Moreton yr Adroddiad Perfformiad Ariannol ar gyfer Mehefin 2026, gan nodi bod IGDC yn adrodd tanwariant refeniw bach o £42k yn erbyn y cynllun ac yn parhau i ragweld cyflawniad ei dargedau ariannol allweddol ar gyfer y flwyddyn. Parhaodd perfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus yn gryf ar 99%, uwchlaw'r targed o 95%, ac roedd balansau arian parod yn iach ar £11.1m. Roedd gwariant cyfalaf yn £1.826m yn erbyn terfyn cyfalaf cymeradwy o £9.152m. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod Oedi ac Adolygiad DPIF Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o eglurder ar y sefyllfa ariannu ar gyfer 2026/27, ond ei fod wedi lleihau'r amlen ariannu refeniw ddisgwyliedig tua £5 miliwn. Roedd cyfanswm o £14.6m yn parhau i fod wedi'i gytuno mewn egwyddor, yn amodol ar sicrwydd pellach, yn enwedig mewn perthynas â Cysylltu Gofal a WICIS. Parhaodd hyn i gynrychioli risg ariannol allweddol a oedd yn gofyn am reolaeth weithredol. Nododd yr adroddiad hefyd fod y sefyllfa ddiffyg sylfaenol wedi gwella yn dilyn triniaeth ddiwygiedig o bwysau cyflog cynyddrannol, gan leihau'r diffyg cylchol o tua £0.9m i tua £0.1m, gyda'r amcan yn parhau i fod i ddileu'r diffyg gweddilliol trwy fesurau effeithlonrwydd cylchol. Nododd y Bwrdd ymhellach fod CThEF wedi canslo asesiadau TAW Microsoft blaenorol a'r taliadau llog cysylltiedig, er bod CThEF wedi cadw'r hawl i gyhoeddi asesiad pellach yn y dyfodol. Ystyriwyd hyn yn ddatblygiad cadarnhaol a byddai'n parhau i gael ei fonitro, gyda rhanddeiliaid allweddol yn cael eu hysbysu. Trafododd yr aelodau'r canlynol: • Croesawodd yr aelodau eglurder y cyflwyniad a chydnabu'r gwaith ychwanegol a wnaed gan y tîm Cyllid mewn ymateb i Oedi ac Adolygu DPIF a gofynion llythyr cylch gwaith cysylltiedig. • Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch arbedion cylchol ac anghylchol, cadarnhawyd bod 83% o'r sefyllfa arbedion gyfredol yn gylchol a 17% yn anghylchol. Nododd yr aelodau fod hyn yn cynrychioli sefyllfa gref, gylchol, er y byddai gwelliant pellach yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol yn heriol.	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	• Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgorffori arbedion sy'n gysylltiedig â swyddi gwag yn rheolaidd, ochr yn ochr â'r angen i barhau â thrafodaethau â Llywodraeth Cymru ar setliad ariannu aml-flwyddyn mwy rhagweithiol i gefnogi cynllunio yn y dyfodol a chynaliadwyedd ariannol. • Trafododd yr aelodau'r cyllid o £14.6m a gytunwyd mewn egwyddor ar gyfer Cysylltu Gofal a WICUS a cheisio sicrwydd ynghylch y tebygolrwydd o fodloni'r safonau gofynnol i sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y cyllid. Cadarnhawyd bod hyder bod y cyllid ar gael, gyda'r gwaith sy'n weddill yn canolbwyntio ar gytuno ar gyflawniadau a cherrig milltir gyda Llywodraeth Cymru. • Nododd yr aelodau fod cytuno ar amodau ariannu mewn pryd yn bwysig, gan y gallai oedi greu risgiau ariannol a risgiau o ran cyflawni. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod cyngor ynghylch y system gofal critigol yn cael ei gwblhau gan swyddogion a bod disgwyl i amodau sy'n gysylltiedig â Cysylltu Gofal gael eu hymgorffori mewn llythyr ariannu yn y dyfodol agos. • Trafododd y Bwrdd y £1.742m o wariant refeniw ymrwymedig sy'n gysylltiedig â chynlluniau lle mae dyraniad neu sicrwydd cyllid ffurfiol yn parhau i fod heb ei wneud. Eglurwyd bod hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys Cysylltu Gofal, Set Ddata Gofal Brys Cymru, EPMA, BAU, Cofnod Gofal Integredig a gofal dwys digidol. • Nodwyd y gallai rhywfaint o wariant gael ei ariannu drwy'r dull Cysylltu Gofal os cytunir arno, tra byddai angen rheoli a lliniaru meysydd eraill drwy gyllidebau craidd lle bo angen. • Nododd yr aelodau bwysigrwydd parhaus disgyblaeth ariannol gref, rheoli risg gweithredol a monitro cerrig milltir cyflawni yn agos, yn enwedig o ystyried dull diwygiedig Llywodraeth Cymru o ariannu DPIF, a oedd wedi'i glustnodi'n fwy ac yn gysylltiedig â chyflawni cerrig milltir. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** a **THRAFOD** cynnwys yr adroddiad ariannol.		
6.5	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** Cyflwynodd CD adroddiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol gan hysbysu bod gan Gofrestr Risg Gorfforaethol IGDC 17 o risgiau ar y gofrestr ar hyn o bryd, 13 o risgiau cyhoeddus a phedair risg breifat. Ers y cyfarfod blaenorol, roedd dwy risg newydd wedi'u hychwanegu a phump wedi'u dileu, gan gynnwys risg **IGDC 0347** yn ymwneud â thîm RADIS, yn dilyn lansio a chau'r rhaglen yn llwyddiannus. Trafododd a nododd yr aelodau'r diweddariadau canlynol: • Nodwyd bod oedi Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol yn parhau i fod yn risg cyflawni byw, gyda chyllid bellach wedi'i gadarnhau ond bod oedi amcangyfrifedig o fis yn gofyn am liniaru. • Nodwyd hefyd effaith barhaus yr oedi recriwtio ar gyfer y llythyr cylch gwaith, gan gynnwys yr effeithiau posibl ar	Nodwyd	Dim i'w nodi

	gyflawni a morâl staff. • Derbyniwyd diweddariadau pellach ar yr oedi wrth weithredu gofal dwys a gweithredu WLIMS, a oedd yn parhau i gael ei fonitro'n agos. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** y Gofrestr Risg Gorfforaethol		
6.6	**Adroddiad Caffael Strategol** Cyflwynodd CM yr adroddiad Caffael Strategol yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i ddyfarnu'r canlynol: Contract **P655 Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS)**, yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd Llywodraethu a Rheoli IGDC. Nododd y Bwrdd fod y gwasanaeth yn hanfodol i lywodraethu gwybodaeth ar draws GIG Cymru, gan alluogi monitro mynediad at gofnodion cleifion a chefnogi nodi mynediad amhriodol neu anghyfreithlon. Cynghorodd CM fod y datrysiad presennol i fod i ddod i ben ym mis Tachwedd 2026 ac y byddai'r ateb arfaethedig a gynhelir yn y cwmwl yn darparu gallu archwilio cenedlaethol, cefnogaeth, cynnal a chadw, hyfforddiant ac integreiddio yn y dyfodol â systemau clinigol cenedlaethol. Y cyflenwr a argymhellwyd oedd Maxwell Stanley Consulting, gyda gwerth contract uchaf o £4.9 miliwn am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd. Cadarnhawyd bod cyllid ar gyfer y tymor cychwynnol o fewn cyllidebau cymeradwy ac roedd y caffael wedi'i wneud trwy broses gwbl gystadleuol yn unol â Deddf Caffael 2023. Yn y drafodaeth, nodwyd bod parhad gwasanaeth wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch a cheisiwyd sicrwydd y byddai parhad yn cael ei gynnal rhwng y trefniadau presennol a'r rhai newydd. **P384 Offeryn profion yn y man lle y rhoddir gofal** Ym mis Mawrth 2025, cymeradwywyd addasiad ar gyfer estyniad dwy flynedd ar gyfer y cyfnod o 19 Medi 2026 i 18 Medi 2028 gan Fwrdd AIA IGDC. Nododd y Bwrdd fod y gwasanaeth cenedlaethol yn cefnogi tua 3,000 o ddyfeisiau ar draws GIG Cymru ac yn prosesu tua 3.5 miliwn o brofion yn flynyddol, gyda chanlyniadau'n bwydo i systemau cofnodion cleifion a labordai cenedlaethol. Ceisiwyd cymeradwyaeth i ymestyn y contract hyd at dair blynedd a chynyddu'r gwerth hyd at £400,000, gan arwain at gyfanswm gwerth contract diwygiedig o £2.257 miliwn. Byddai'r estyniad yn cynnal parhad y gwasanaeth tra byddai'r strategaeth gaffael ar gyfer y dyfodol, cymeradwyaethau ariannu ac ymgysylltu â'r farchnad yn cael eu datblygu. Nodwyd bod pwysau adnoddau, gan gynnwys gwaith ar raglenni diagnostig arwyddocaol eraill fel LIMS, wedi effeithio ar amseriad y gwaith datrysiadau yn y dyfodol. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod cyngor cyfreithiol allanol wedi cadarnhau bod yr addasiad yn dderbyniol o dan Reoliad 72 o	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

	Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, gan nad oedd yn newid natur na chwmpas y gwasanaeth yn sylweddol. Byddai costau'n parhau i gael eu hailgodi ar fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd drwy drefniadau CLG ac nid oedd unrhyw bwysau costau rhagweladwy ar gyfer IGDC yn 2026/27. **Penderfynodd y Bwrdd:** **GYMERADWYO'R** canlynol: (1) Papur Dyfarnu Contract a (1) Papur Estyn Contract a Chynyddu Gwerth, fel y nodir isod: i. Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS) ii. P384 Offeryn profion yn y man lle y rhoddir gofal		
6.7	**Adroddiad Perfformiad** Cyflwynodd CD yr Adroddiad Perfformiad Sefydliadol a diweddariad Cenadaethau Strategol Chwarter 1, a oedd yn nodi cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gweinidogol a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru drwy bum cenhadaeth IGDC. Nododd yr aelodau gynnydd cadarnhaol ar draws ystod o feysydd. Tynnodd yr adroddiad sylw at effaith yr oedi recriwtio a'r oedi ac adolygiad DPIF ar amserlenni cyflawni rhaglenni, yn enwedig mewn perthynas â'r Adnodd Data Cenedlaethol a chynlluniau cyflawni ehangach. Nododd yr aelodau fod sefydlogrwydd y gweithlu wedi'i gynnal, gyda nifer y staff yn 1,281 a throsiant wedi'i ostwng i 6.19%. Roedd cydymffurfiaeth ag AGDP wedi gwella ac roedd yn rhagori ar y targed ar 86.49%, yn dilyn uwchgyfeirio blaenorol i'r Bwrdd ac ymchwiliad manwl gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Gostyngodd argaeledd gwasanaeth islaw'r targed am y tro cyntaf mewn 12 mis, gan ostwng i 99.76% ym mis Mehefin oherwydd toriad pŵer mawr mewn canolfan ddata IGDC ar 29 Mehefin. Adferwyd gwasanaethau hanfodol yr un diwrnod, gyda'r holl wasanaethau wedi'u hadfer yn llawn erbyn 14 Gorffennaf. Arhosodd boddhad y ddesg wasanaeth uwchlaw'r targed ar 97.4%, parhaodd y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig i ehangu gyda dros 900 o safleoedd byw, arhosodd y defnydd o Ap GIG Cymru yn gadarnhaol, ac roedd cyfrifon segur ar draws GIG Cymru wedi lleihau. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y canlynol:- Rhoddodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y digwyddiad mawr, gan gynghori bod methiant trosglwyddiad rhagataliol i'r ganolfan ddata amgen, oherwydd y don wres flaenorol, wedi lleihau effaith y methiant pŵer. Nododd yr aelodau fod rhai gwasanaethau wedi dirywio a bod nifer fach heb wydnwch traws-safle wedi'u heffeithio'n llawn. Ymhlith y gwersi a nodwyd roedd cryfhau monitro mentrau, cyfathrebu, sicrwydd cyflenwyr ac adolygiad annibynnol o gyfluniad y cyfleuster, gyda disgwyl i fudo i'r cwmwl gefnogi lliniaru risg yn y tymor hwy.	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	Croesawodd Ruth Glazzard, Cadeirydd, berfformiad y ddesg wasanaeth a gofynnodd a oedd yr oedi recriwtio yn galluogi mwy o symudiad mewnol. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Grŵp Goruchwylio Adnoddau Strategol yn ystyried hyn a bod enghreifftiau cadarnhaol yn bodoli, er nad oedd hyn yn creu capasiti ychwanegol ac nad oedd modd cyfateb sgiliau bob amser. Byddai cynllunio gweithlu strategol yn bwysig wrth gefnogi hyblygrwydd sefydliadol yn y dyfodol. Diolchodd HT i'r timau am yr ymateb i'r digwyddiad a gofynnodd a oedd ymgysylltiad rhanddeiliaid yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn yr adroddiad perfformiad wedi'i ailgynllunio. Cynghorodd CD fod angen gwaith pellach i gofnodi gweithgarwch ymgysylltu yn well, gan gynnwys ffyrdd o weithio cynnyrch, dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac adborth o ddigwyddiadau. Croesawodd y Bwrdd y gostyngiad yn nifer y cyfrifon segur a nododd bwysigrwydd cynnal cydymffurfiaeth well ag AGDP a nododd fod rheolaethau gwell ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth fwy cyson drwy gydol y flwyddyn. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** yr Adroddiad Perfformiad.		
6.8	6.8i Fforwm Partneriaeth Lleol Rhoddodd Samantha Morgan, Cadeirydd y Fforwm Partneriaeth Lleol, y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2026. Cynghorwyd yr aelodau fod y Fforwm Partneriaeth Lleol yn parhau i ddarparu mecanwaith allweddol ar gyfer cynnal ffocws ar agenda'r gweithlu, gan gynnwys materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gweithio mewn partneriaeth a chydymffurfio â dyletswyddau partneriaeth. Nodwyd nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol i'w codi o'r adroddiad a pharhaodd y Fforwm i gefnogi trafodaeth adeiladol ar faterion sy'n effeithio ar staff. Am ragor o wybodaeth am Fforwm Partneriaeth Lleol IGDC, dilynwch y ddolen yn y teitl neu fel arall sganiwch y cod QR canlynol. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** Adroddiad Uchafbwyntiau Fforwm Partneriaeth Lleol er **SICRWYDD**	Derbyniwyd ar gyfer Sicrwydd	Dim i'w nodi
	6.8ii Tâl a Thelerau Gwasanaeth: Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch crynodebau perfformiad diwedd blwyddyn y tîm Gweithredol ac adolygodd a thrafododd yr amcanion ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.	Derbyniwyd ar gyfer Sicrwydd	Dim i'w nodi

	Cymeradwyodd y Pwyllgor, yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan Lywodraeth Cymru, estyniad i drefniant y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro hyd at 31 Rhagfyr 2026. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** Adroddiad Uchafbwyntiau'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth er **SICRWYDD**		
	6.8iii 'Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd <https://dhcw.nhs.wales/about-us/board-committee-and-advisory-boards/audit-and-assurance-committee/> Rhoddodd Marian Wyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ddiweddariad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026. Nododd y Pwyllgor y canlynol: Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol i'w huwchgyfeirio; fodd bynnag, tynnwyd sylw at sawl maes allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Rhaglen Wybodaeth Gofal Dwys Cymru a nododd y sicrwydd a roddwyd gan Archwilio Mewnol bod trefniadau llywodraethu, goruchwylio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cryfhau'n sylweddol ers yr adolygiad annibynnol blaenorol. Derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiad archwilio trawsnewid digidol Archwilio Cymru. Nododd yr aelodau'r sicrwydd a roddwyd bod cynnydd yn cael ei wneud i'r cyfeiriad cywir, yn dilyn diddordeb blaenorol y Pwyllgor mewn derbyn yr adroddiad. Mewn sesiwn breifat, derbyniodd y Pwyllgor adolygiad o brosesau recriwtio. Nodwyd, er bod lefel y sicrwydd a ddarparwyd yn gyfyngedig, fod gwaith wedi parhau yn y maes hwn a bod camau wedi'u cymryd i wella'r sefyllfa. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n parhau i geisio sicrwydd pellach yn ystod y flwyddyn nesaf. Cymeradwyodd y Pwyllgor nifer o bolisïau a strategaethau, fel y nodir yn yr adroddiad. I gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, dilynwch y ddolen yn y teitl neu sganiwch y cod QR canlynol. **Penderfynodd y Bwrdd:** **DDERBYN** yr Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd er **SICRWYDD**.	Derbyniwyd ar gyfer Sicrwydd	Dim i'w nodi
RHAN 7 – MATERION I GLOI			

7.1	**Unrhyw Faterion Brys Eraill** Ni chodwyd unrhyw faterion busnes brys eraill, fodd bynnag, hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yr un diwrnod.	Trafodwyd	Dim i'w nodi
7.2	**Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf:** Dydd Iau 24 Medi 2026	Nodwyd	Dim i'w nodi